



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig;
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development;
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Canllawiau Gwerthuso ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER

Ionawr 2017

Cynnwys

Cyflwyniad

Adran 1: Cyd-destun gwerthuso 2014-2020

1.1.	Diben gwerthuso.....	5
1.2.	Cynllun Gwerthuso 2014 - 2020.....	6
1.3.	Gofynion gwerthuso Llywodraeth Cymru....	7
1.4.	Cymorth gwerthuso	7

Adran 2: Dulliau a thechnegau

2.1.	Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer Datblygu Gwledig	8
2.2.	Data llinell sylfaen	10
2.3.	Systemau monitro	11
2.4.	Methodolegau gwerthuso	12

Adran 3: Cynllunio, datblygu a chyflawni gwerthusiad

3.1.	Cynllunio gwerthusiad	16
3.2.	Comisiynu a rheoli	20
3.3.	Manyleb	21
3.4.	Templed adroddiad	25
3.5.	Defnydd effeithiol o'r canlyniadau.....	27

Rhestr Tablau

Tabl 1 – Enghraifft o Gwestiwn Gwerthuso Cyffredin – Blaenoriaeth 6B

Tabl 2 - Cyfrifoldebau rheoli ansawdd gwerthuso

Tabl 3 – Templed manyleb

Atodiad 1 – Rhagor o Ganllawiau

Atodiad 2 – Geirfa

Anecs 1 – Rhestr o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin

Anecs 2 - Cwestiynau a awgrymir ar gyfer gwerthusiadau canol tymor a terfynol

Anecs 3 – Amserlen Werthuso Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Trosolwg

- Fel Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) byddwch yn ymwybodol bod gofyniad ar gyfer gwerthusiad annibynnol o ddarparu'ch Strategaeth Datblygu Lleol. Fel rhan o'r broses hon bydd angen i Grwpiau Gweithredu Lleol (LAGs):
 - Gynllunio gweithgareddau gwerthuso ar gyfer cyfnod y rhaglen;
 - Casglu data monitro digonol o ansawdd da yn rheolaidd;
 - Drafftio'r cylch gorchwyl ar gyfer gweithgarwch gwerthuso annibynnol; a
 - Comisiynu a rheoli contractwyr gwerthuso.
- Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn darparu cymorth i'r gweithgareddau uchod. Mae'n gyflwyniad i werthusiad ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol yng nghydestun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (WGRC-RDP 2014-2020).
- Mewn ymateb i'r wybodaeth a'r adborth a gafwyd yn y rhaglen flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi newid y dull o fonitro a gwerthuso yn WGRC-RDP 2014-2020. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r newidiadau hyn .
- Yn y pen draw, dylid ystyried gwerthuso yn arf i ddarparu tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ac i wella effeithiolrwydd, defnyddioldeb ac effeithlonrwydd. Dylai'r canlyniadau a'r argymhellion lywio rheoli rhaglenni rheoli drwy wella targedu adnoddau a chaniatáu cymharu perfformiad.
- Nodir cyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â monitro a gwerthuso PAC 2014 – 2020, o dan erthygl 110 o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013. Mae'r Gangen Strategaeth yn WEFO (gynt y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso) yn rheoli gwerthusiadau ar lefel rhaglenni ar ran yr Awdurdod Rheoli.
- Gall y Gangen Strategaeth ddarparu cymorth i lunio manylebau gwerthuso, rhoi cyngor ar fethodolegau, eistedd ar baneli sgorio ar gyfer gwerthuso tendrau, eistedd ar grwpiau llywio gwerthuso ar gyfer cyfarfodydd â gwerthuswyr penodedig, a rhoi sylwadau ar adroddiadau ymchwil drafft.

Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i ddarparu cymorth ar gyfer gwerthuso i Grwpiau Gweithredu Lleol a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae'n cyflawni swyddogaeth cyflwyniad i werthuso ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol yng nghyd-destun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP 2014-2020).

Mae'r canllawiau'n cynnwys tair adran:

- Mae **Adran 1** yn esbonio'r rhesymeg dros werthuso LEADER ac yn rhoi gwerthuso yng nghyd-destun gofynion y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Mae'n mynd i'r afael â materion cyffredin yn ymwneud â gwerthuso y nodwyd eu bod yn feysydd penodol sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn Strategaethau Datblygu Lleol Grwpiau Gweithredu Lleol. Rhoddir sylw i'r rhain drwy'r adroddiad cyfan wedyn.
- Mae **Adran 2** yn amlinellu dulliau ac offerynnau ymarferol ar gyfer gwerthuso y dylid eu hystyried wrth gynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys: Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin, a methodolegau allweddol sy'n berthnasol i werthuso datblygu gwledig.
- Mae **Adran 3** yn cynnwys cyngor ymarferol ar gynllunio, comisiynau a gweithredu gwerthusiadau effeithiol. Mae hyn yn cynnwys manylebau safonol ar gyfer gwerthusiadau canol tymor a therfynol a thempled adroddiad enghreifftiol.

Mae'r ddogfen hon yn fersiwn wedi'i diwygio a'i diweddarau o '*An Introduction to Monitoring and Evaluation for Local Action Groups*', a ddosbarthwyd i Grwpiau Gweithredu Lleol ddiwedd 2014. Mae canllawiau ar gyfer monitro a gwerthuso wedi cael eu rhannu rhwng dwy ddogfen ategol bellach. Mae canllawiau monitro wedi'u teilwra yn cynnwys cofnodion manwl ar gyfer y dangosyddion perfformiad sy'n benodol i'r WGRC-RDP 2014-2020 cyfan, ac mae'r ddogfen hon yn nodi manylion canllawiau gwerthuso sy'n benodol i Grwpiau Gweithredu Lleol.

Adran 1: Cyd-destun gwerthuso 2014-2020

Mewn ymateb i wybodaeth ac adborth a dderbyniwyd yn y rhaglen flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi dyfeisio newid i'r dull o sut y bydd gwaith monitro a gwerthuso yn cael ei wneud yn WGRC-RDP 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys cynllun dangosyddion symlach a fydd yn caniatáu pwyslais ar gasglu data manwl gywir. Bydd manylion cyswllt cywir ar gyfer buddiolwyr yn galluogi arolygon i archwilio'r rhesymau am effeithiau ehangach yr ymyriadau. Gwerthusiadau fydd yr allbwn allweddol ar gyfer hysbysu am y buddiannau ychwanegol hynny sydd wedi deillio o LEADER. Mae templedi safonol yn sicrhau y gellir cytgordio cynnwys y gwerthusiadau hyn yn haws ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Hefyd, bydd gan Rwydwaith Gwledig Cymru fwy o ran i'w chwarae o ran dosbarthu a rhannu canlyniadau'r rhaglen.

Disgwylir y bydd y newidiadau hyn yn arwain at system fonitro a gwerthuso gymesur sy'n gallu nodi effeithiau ehangach LEADER yn fwy effeithiol yn erbyn y materion a nodir mewn Strategaethau Datblygu Lleol. Bydd hyn yn arwain at broses haws ar gyfer canfod cryfderau a gwendidau ymyriadau ledled Cymru.

1.1. Diben Gwerthuso

Mae gan werthuso gwmpas ehangach na monitro ar gyfer archwilio cyflawniadau prosiectau a rhaglenni. Mae'n golygu cynnal asesiad cyffredinol o gyflawniadau prosiect neu gynllun. Er y gall y system fonitro helpu o ran yr amcan hwn, mae'n gyfyngedig gan **nad yw'n hawdd mesur neu brofi rhai canlyniadau trwy ddangosyddion**. Mae gwerthusiadau hefyd yn galluogi rheolwyr prosiect i wella cynllun a gweithrediad eu rhaglenni. I Lywodraeth Cymru, mae gwerthusiadau yn cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wella polisi a strategaeth yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae gwerthuso yn mynd â'r broses o fonitro gwybodaeth ymhellach trwy ymchwilio i effeithiau ehangach ac asesu'r rhesymau pam mae canlyniadau dangosyddion fel y maent. Mae gwerthusiadau hefyd yn mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch ansawdd

ymyriadau ac yn ystyried ffactorau cyd-destunol. Er enghraifft, gall data dangosyddion hysbysu bod 10 swydd wedi cael eu creu gan brosiect. Bydd gwerthusiad yn gallu ateb wedyn cwestiynau fel, a fyddai'r swyddi hyn wedi cael eu creu pe na bai'r ymyriad wedi digwydd, ansawdd y swyddi hyn a pha un a yw nifer y swyddi a grëwyd yn uchel neu'n isel o'i gymharu â chynlluniau eraill?

Mae gwerthusiadau yn defnyddio dangosyddion fel llinell sylfaen ac yn ymhelaethu ar y rhain trwy amrywiaeth o ddulliau ymchwilio cadarn. Er mwyn i werthuso fod yn effeithiol, mae'n rhaid ei ystyried fel proses barhaus y mae gwaith monitro yn cael ei wneud yn rhan ohoni, yn hytrach nag adolygiad ôl-weithredol o lwyddiant y prosiect. Mae'n hanfodol felly ymgysylltu â'r gwaith monitro a gwerthuso yn ystod camau cynnar datblygiad eich gweithrediad.

Yn y pen draw, dylid ystyried gwerthuso fel offeryn i ddarparu tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n gwella effeithiolrwydd, defnyddioldeb ac effeithlonrwydd. Dylai'r canlyniadau a'r argymhellion lywio rheolaeth y rhaglen trwy wella gwaith targedu adnoddau a chaniatáu cymhariaeth o berfformiad. Gall hefyd gynnig arwydd cynnar o unrhyw broblemau a all ganiatáu i'r rhaglen newid arferion yn gynnar os oes angen.

1.2. Cynllun Gwerthuso 2014 - 2020

Mae'r *'Technical Handbook on the Monitoring and Evaluation Framework of the Common Agricultural Policy (CAP) 2014-2020¹*' yn crynhoi gofynion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer gwerthuso'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn ystod y cyfnod 2014-2020. Nid yw'r System Monitro a Gwerthuso Gyffredin wedi ei chwblhau eto.

Nodir cyfrifoldebau'r rheini sy'n rhan o'r broses o fonitro a gwerthuso Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) 2014 – 2020 o dan Erthygl 110 Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013. Mae'r Gangen Strategaeth yn rheoli gwerthusiadau ar lefel y Rhaglen ar ran yr Awdurdod Rheoli.

1

<http://ec.europa.eu/transparency/regexpert/index.cfm?do=groupDetail.groupDetailDoc&id=18200&no=17>

Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu Gwerthusiad o Werth Ychwanegol LEADER a Datblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned. Bydd yr astudiaeth hon yn cael ei chynnal tua diwedd y cyfnod Rhaglennu a bydd yn ategu gwerthusiadau a gynhaliwyd ar lefel leol gan Grwpiau Gweithredu Lleol o'u cyflawniadau yn eu hardaloedd.

1.3. Gofynion gwerthuso Llywodraeth Cymru

Mae'n ofynnol i Grwpiau Gweithredu Lleol ddarparu gwybodaeth am y gwaith o fonitro a gwerthuso rhaglen a hefyd iddynt gynnal hunanwerthusiadau a monitro datblygiad y Strategaeth Datblygu Lleol. Mae cyfranogiad Grŵp Gweithredu Lleol mewn gwerthusiadau yn bwysig gan eu bod yn cynnig gwybodaeth a chysylltiadau lleol gwerthfawr, yn ogystal â safbwynt ymarferol ar y broses fonitro a gwerthuso mewn ardal benodol. Felly, bydd Grwpiau Gweithredu Lleol yn:

- Cymryd rhan yng ngwerthusiadau Rhaglen y WGRC-RDP 2014-2020²;
- Cyfrannu at asesu gwerth ychwanegol y dull LEADER;
- Ymgymryd â'r gwaith o fonitro a gwerthuso eu Strategaethau Datblygu Lleol eu hunain.

1.4 Cymorth gwerthuso

Er mwyn galluogi Grwpiau Gweithredu Lleol i gyfrannu'n effeithiol, bydd y Gangen Strategaeth yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) (y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso gynt) yn darparu cymorth ac yn cynyddu capasiti. O ganlyniad i drafodaethau gyda Grwpiau Gweithredu Lleol yn ystod cyfnod rhaglennu 2007-2013 a Digwyddiad Rhwydwaith Gwledig Cymru: '*Monitoring and Evaluation – Glancing back to plan ahead*', mae Llywodraeth Cymru wedi gwella'r cymorth ar gyfer monitro a gwerthuso LEADER.

Gall y Gangen Strategaeth gynnig cymorth i lunio manylebau gwerthuso, cynghori ar fethodolegau, eistedd ar baneli sgorio tendrau ar gyfer contractau gwerthuso,

² Gweler Anecs 3 ar gyfer Amserlen Werthuso'r Rhaglen 2014-2020

eistedd ar grwpiau llywio gwerthuso ar gyfer cyfarfodydd gyda gwerthuswyr penodedig, a chynnig sylwadau ar adroddiadau ymchwil drafft.

Cysylltwch â'r tîm yn uniongyrchol yn RDPM&E@wales.gsi.gov.uk.

Adran 2: Dulliau a thechnegau

Mae Adran 2 yn amlinellu'r dulliau y gellir eu defnyddio mewn gwerthusiadau i asesu effeithiolrwydd ymyriadau Grwpiau Gweithredu Lleol yn effeithiol. Mae Adran 2.1 yn esbonio'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn eu gwneud yn ofynnol. Mae Adrannau 2.3 a 2.4 yn cyflwyno technegau gwerthuso y dylid eu hystyried yn ystod cam cynllunio unrhyw waith ymchwil.

2.1. Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer Datblygu Gwledig

Mae cwestiynau gwerthuso yn elfen bwysig o System Monitro a Gwerthuso Gyffredin yr UE. Maent yn helpu i ddiffinio pwyslais gwerthusiadau ac yn galluogi cynnydd, effaith a chyflawniadau ymyriadau datblygu gwledig gael eu harchwilio ar wahanol lefelau gan gynnwys Cymru, y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Mae Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin yn orfodol i Lywodraeth Cymru adrodd ar gynydd yn eu herbyn i'r Comisiwn Ewropeaidd. Anogir Grwpiau Gweithredu Lleol i gwblhau gwerthusiadau terfynol ar ôl 2019, o ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i effeithiau ddod i'r amlwg. Bydd hyn yn sicrhau y gall canfyddiadau fwydo i mewn i'r gwerthusiad terfynol o'r Rhaglen y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn 2024.

Anecs 2 yn cynnwys cyfres o gwestiynau dangosol gall y Grwpiau Gweithredu Lleol cynnwys neu addasu mewn gwerthusiadau canol tymor a terfynol. Anogir Grwpiau Gweithredu Lleol i greu cwestiynau gwerthuso ychwanegol sy'n berthnasol i'w gweithrediadau.

Caiff Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin eu hateb gan ddefnyddio meini prawf a dangosyddion dyfarnu penodol. Defnyddir y meini prawf dyfarnu i gysylltu'r dangosyddion â'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin sy'n helpu i gasglu'r dystiolaeth i

ddatblygu'r atebion. Dim ond man cychwyn yw'r meini prawf dyfarnu a bennir gan y Comisiwn Ewropeaidd a dylai gwerthuswyr ddatblygu meini prawf dyfarnu ychwanegol y bwriedir iddynt fynd i'r afael â materion sy'n benodol i bob Grŵp Gweithredu Lleol. Ceir cyfanswm o 30 o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin sy'n cynnwys un ar gyfer bob un o'r 18 Maes Ffocws, a'r 12 sy'n weddill yn asesu blaenoriaethau llorweddol. Mae rhestr lawn o'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gael yn Atodiad 1.

Yn yr un modd â'r Dangosyddion Perfformiad, dylai Grwpiau Gweithredu Lleol adrodd yn erbyn y Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin sy'n berthnasol i'r Meysydd Ffocws y mae eu gweithgareddau yn cyd-fynd â nhw. Am y rheswm hwn, dylai'r holl Grwpiau Gweithredu Lleol roi sylw i'r Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin sy'n berthnasol i FA 6B; 'I ba raddau y mae ymyriad y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at feithrin datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig?'

Mae'n orfodol i Grwpiau Gweithredu Lleol gasglu data am y Themâu Trawsbynciol (cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgau cymdeithasol.

Mae tabl 1 yn cynnig gwybodaeth allweddol am sut i fynd i'r afael â'r cwestiwn gwerthuso uchod. Yn dibynnu ar y gweithgareddau sy'n cael eu darparu yn ardal y Grŵp Gweithredu Lleol, dylech edrych drwy'r rhestr lawn o gwestiynau yn Atodiad 1 wedyn, a rhoi sylw i'r Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin sy'n berthnasol i'r Meysydd Ffocws ar gyfer y gweithgareddau sy'n cael eu darparu yn eich ardal.

Tabl 1 – Enghraifft o Gwestiwn Gwerthuso Cyffredin – Blaenoriaeth 6B

	Maes Ffocws 6B – Meithrin datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig
Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin penodol i'r Maes Ffocws	I ba raddau y mae ymyriad y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at feithrin datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig?
Meini prawf dyfarnu	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwasanaethau a seilwaith lleol mewn ardaloedd gwledig wedi gwella • Mae'r mynediad at wasanaethau a seilwaith lleol wedi cynyddu mewn ardaloedd gwledig • Mae pobl wledig wedi cymryd rhan mewn gweithredoedd lleol • Mae pobl wledig wedi elwa ar weithredoedd lleol • Mae cyfleoedd cyflogaeth wedi cael eu creu trwy strategaethau datblygu lleol • Bu cynnydd i'r diriogaeth a'r boblogaeth wledig a wasanaethir gan Grwpiau Gweithredu Lleol
Dangosyddion Datblygu Gwledig Cyffredin	<ul style="list-style-type: none"> • % y boblogaeth wledig y mae strategaethau datblygu lleol yn berthnasol iddynt (<i>FA 6B – Dangosydd canlyniad</i>) • Swyddi a grëwyd mewn prosiectau a gefnogir (Leader) (<i>FA 6B – Dangosydd canlyniad</i>) • % y boblogaeth wledig sy'n elwa o well gwasanaethau/seilweithiau (<i>FA 6B – Dangosydd canlyniad</i>)
Gwybodaeth ychwanegol	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y prosiectau/mentrau a gefnogir gan y Strategaeth Datblygu Lleol • % gwariant y Rhaglen Datblygu Gwledig ar fesurau Leader yng nghyswllt cyfanswm gwariant y Rhaglen Datblygu Gwledig

2.2. Data llinell sylfaen

I Grwpiau Gweithredu Lleol, mae data llinell sylfaen yn cynnig dealltwriaeth o gyd-destun yr amodau economaidd-gymdeithasol yn y maes ymyrryd, cyn i weithrediadau gychwyn. Pan nodir bylchau yn narpariaeth y llinell sylfaen, yna gellid

casglu gwybodaeth ychwanegol. Mae angen i ddata llinell sylfaen ganolbwyntio ar feysydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgareddau a ddarperir gan Grwpiau Gweithredu Lleol unigol. Mae'r targedu effeithiol hwn yn angenrheidiol oherwydd y gellir priodoli unrhyw newidiadau a wnaed yn hyderus i weithgarwch y Grŵp Gweithredu Lleol, ac nid i ddatblygiadau ehangach y tu allan i LEADER.

Mae sicrhau bod data llinell sylfaen ar gael yn bwysig oherwydd y gall gwerthuswyr eu defnyddio i gymharu canfyddiadau yn ystod oes a/neu ar ddiwedd gweithrediad, yn erbyn y sefyllfa cyn i'r ymyriad gychwyn. Eto, gwneir hyn dim ond os yw'r data llinell sylfaen wedi canolbwyntio ar feysydd allweddol y gellir eu priodoli i weithgarwch y Grŵp Gweithredu Lleol.

Gellir casglu data llinell sylfaen o wahanol ffynonellau, er enghraifft:

- Gellir cynnal **gwerthusiad llinell sylfaen** i gasglu data ar nodweddion economaidd-gymdeithasol y boblogaeth. Bwriedir i'r llinell sylfaen ddarparu lefelau a argymhellir y caiff targedau eu hasesu yn eu herbyn.
- **Cofnodi data buddiolwyr ar gychwyn gweithred**: mae'r dull hwn yn fwy priodol ar gyfer gweithrediadau busnes unigol. Gellir cofnodi data fel trosiant, a nifer y swyddi cyferwerth ag amser llawn, ar ddechrau'r prosiect. Trwy gyfeirio at y data hyn yn y gwerthusiad terfynol, gall gwerthuswyr ddyfynnu union newidiadau, yn hytrach na gofyn i fuddiolwyr gofio'r wybodaeth yn ystod y gwaith maes terfynol pan efallai na fydd ganddynt yr union wybodaeth ar gael.
- **Defnyddio ffynonellau data presennol**: Amlinellwyd ffynonellau data presennol sydd ar gael i fesur llwyddiant yn eu herbyn gan y Grwpiau Gweithredu Lleol yn eu Strategaethau Datblygu Lleol. Roedd y rhain yn cynnwys: data presennol o Raglen Datblygu Gwledig 2007 – 2013, gwerthusiadau presennol, a setiau data presennol fel y rheini sydd ar gael ar wefan StatsCymru.

2.3. Systemau monitro

Mae angen data monitro o ansawdd uchel ar gyfer gwerthuso effeithiol. Mae data monitro yn cynnwys data ariannol, dangosyddion perfformiad a manylion cyswllt.

Mae'n hanfodol bod data yn cael eu casglu mewn ffordd systematig ar draws Grwpiau Gweithredu Lleol a bod y wybodaeth sy'n cael ei chofnodi yn gadarn. **Nid yw'n bosibl deall yn gywir effeithiau'r ymyriadau na pha un a ydynt yn bodloni eu targedau heb ddata dibynadwy.**

Dylai Grwpiau Gweithredu Lleol gynnal cronfeydd data manylion cyswllt electronig cyfredol ar gyfer yr holl weithrediadau ac ar gyfer holl fuddiolwyr ymyriadau. Dylech ystyried lefel y manylion casglu data sy'n ofynnol, yn gymesur â gweithrediad. Er enghraifft, os cynhelir cwrs hyfforddi, dylid cofnodi manylion y sawl sy'n cymryd rhan a chael caniatâd ganddo ar gyfer cyswllt pellach yn rhan o'r gwerthuso. Dylid bod yn ofalus i beidio â dyblygu cofnodion.

Mae'n bwysig cytuno yn gynnar ar gyfrifoldebau a phrosesau ar gyfer casglu data. Mae cynllunio ymlaen llaw yn hanfodol gan y gall y broses gyfan o gynllunio'r gwaith gwerthuso i ddsbarthu canlyniadau, gymryd hyd at dair blynedd. Gallai diffyg argaeledd data ymestyn y broses werthuso yn sylweddol. Mae'n bwysig iawn dechrau cynllunio gwerthusiad ymhell ymlaen llaw. **Un cam hollbwysig yw casglu manylion cyswllt dibynadwy (gan gynnwys manylion rhif ffôn ac e-bost cywir) ar gyfer buddiolwyr a chadw'r rhain ar ffurf electronig.**

Cyn gwneud gwaith arolygu cymunedol, mae'n arfer da cysylltu â chyfranogwyr ymlaen llaw (pan fo'n bosibl) i esbonio pwysigrwydd y gwaith arolygu, i bwysleisio cyfrinachedd yr ymatebion ac i roi'r cyfle iddynt optio allan o gofnodi eu barn. Mae hyn hefyd yn profi i gyfweleion fod y gwerthuswyr yn gweithio ar ran y Grŵp Gweithredu Lleol.

2.4. Methodolegau gwerthuso

Yn ogystal ag adolygiadau prosiect mewnol, anogir Grwpiau Gweithredu Lleol i gomisiynu contractwyr allanol i gynnal gwerthusiadau prosiect yn eu hardal. Mae'r adran hon yn gweithredu fel cyflwyniad i'r dulliau cyffredin a ddefnyddir i werthuso LEADER. Mae'r Gangen Strategaeth ar gael i gynnig cymorth ar ddulliau ymchwilio. Mae dolenni ychwanegol i ffynonellau manwl ar fethodoleg ar gael yn Atodiad 1.

Wrth ddatblygu'r fanyleb ar gyfer contract gwerthuso, mae'n hanfodol amlinellu'r dulliau y byddech yn disgwyl i werthuswr eu defnyddio. Os nad yw hyn yn eglur, efallai na fydd y cynigion a dderbyniwch yn cynnwys methodolegau sydd eu hangen arnoch i ymdrin â phob agwedd ar eich rhaglen yr hoffech. Ceir rhagor o fanylion am gynlluniau a manylebau gwerthuso yn Adran 3.

Oherwydd natur LEADER, ei dull cyfranogol a'i bwyslais economaidd-gymdeithasol cryf, argymhellir bod gwerthusiadau'n archwilio safbwyntiau cymunedau lleol mewn ardaloedd LEADER. Mae cyfranogiad gweithredol buddiolwyr a rhanddeiliaid LEADER yn y broses werthuso yn cryfhau ei pherthnasedd a'r ddealltwriaeth o ganlyniadau a chyfrifoldeb amdanynt. Gall hyn yn ei dro gryfhau'r ymddiriedaeth o fewn y bartneriaeth a rhwng y Grwpiau Gweithredu Lleol a'r buddiolwyr. Ffeirir y defnydd o ddulliau cymysg i fynd i'r afael â'r angen i nodi'r gwahanol agweddau ar effeithiau LEADER³.

Mae enghreifftiau o ddulliau arfer gorau i werthuso LEADER yn cynnwys:

- Dadansoddi data monitro ac ariannol – Dylai pob gwerthusiad gynnwys adran sy'n adolygu gwybodaeth y dangosyddion a gasglwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol. Dylid cynnwys y data hyn mewn tabl eglur yn y gwerthusiad fel y gellir cymharu canlyniadau prosiectau tebyg ar draws Cymru yn rhwydd.
- Arolygon cymunedol – mae'n rhain yn cynnwys cynnal arolwg gyda grwpiau cymunedol ehangach, yn hytrach na buddiolwyr uniongyrchol y Rhaglen Datblygu Gwledig. Caiff y rhain eu rheoli orau ar lefel leol gan mai Grwpiau Gweithredu Lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y materion y dylid eu hymchwilio. Gall hyn gynnwys buddiolwyr prosiectau o fath cymunedol, yn ogystal â grwpiau cymunedol ehangach. Mae hyn o gymorth wrth asesu manteision ehangach y gweithrediadau. Er enghraifft, gall arolygon ymchwilio i dybiaethau lleol o gymuned a'r hyn y maent yn teimlo bod cyllid LEADER wedi ei gyflawni, neu heb ei gyflawni. Gall holiadur sydd wedi'i gynllunio'n dda archwilio'r rhesymau am ganlyniadau ffigurau Dangosyddion Perfformiad. I asesu hirhoedledd y canlyniadau, efallai yr hoffech ofyn i ymatebwyr beth fydd yr effeithiau tebygol ar ôl cyfnod o dair blynedd yn eu barn nhw. Bydd y

³ https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/uploaded-files/twg-05-ep-june2015_0.pdf

Gangen Strategaeth yn cynnal arolygon gyda busnesau ac yn rhannu data perthnasol gyda phob Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer dadansoddiad eilaidd yn rhan o werthusiadau.

- Astudiaethau achos – mae'r rhain yn ffordd fuddiol o gasglu a chyflwyno data ar bwnc manwl neu benodol. Yn amlach na pheidio, bydd astudiaethau achos yn ymchwilio i brosiect unigol, i gasgliad o brosiectau tebyg a chanddynt faterion cyffredin, neu i ardal ddaearyddol fechan. Yn ogystal â chyflwyno enghreifftiau o arfer da, gall astudiaethau achos hefyd archwilio materion penodol a allai fod wedi dod i'r amlwg, a sut y cafodd y rhain eu trin a'u datrys. Caiff astudiaethau achos eu rheoli orau ar lefel Grŵp Gweithredu Lleol ac maent yn ddefnyddiol ar gyfer nodi'r manteision cymunedol.
- Samplu pelen eira - y broses o nodi cyfweleion ychwanegol i'w cyfweld yw hon, neu eu defnyddio fel astudiaethau achos yn seiliedig ar argymhellion cysylltiadau presennol. Mae hyn yn ddefnyddiol yng nghyd-destun LEADER gan y gallai ganiatáu ymchwiliad o fanteision ehangach gweithrediadau, yn enwedig o ran gwerthuso'r thema drawsbynciol o drechu tloidi.
- Cyfweliadau – Mae cyfweliadau lled-strwythuredig yn darparu data ansoddol ac yn cynnig cipolwg da ar y rhesymau am ganlyniadau. Cynhelir cyfweliadau dros y ffon neu wyneb yn wyneb gan amlaf.
- Grwpiau Ffocws – Yn debyg i gyfweliadau, mae grwpiau ffocws yn cynnwys hwylusydd sy'n ysgogi trafodaeth mewn cyfarfod grŵp o tua chwech i wyth o bobl. Mae'r dull hwn yn ddefnyddiol i gael amrywiaeth o sylwadau a safbwyntiau mewn cyfnod byrrach na chyfweliadau. Fodd bynnag, nid yw grwpiau ffocws yn addas o safbwynt moesegol ar gyfer trafod pynciau mwy sensitif.
- Dadansoddiad o'r Sefyllfa – Mae hwn yn cynnwys ymchwilio i'r polisi cefndirol perthnasol a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach y mae prosiectau'n gweithredu ynddo. Mae'r broses hon yn gwella'r meincnod y gall gwerthuswyr ei ddefnyddio i asesu'r gwelliant i faes o ganlyniad i ymyriad LEADER. Yn yr un modd â chasglu data llinell sylfaen, dylid cymryd gofal i

sicrhau bod dadansoddiad o'r sefyllfa yn trafod meysydd sy'n benodol i LEADER, fel na chaiff ffactorau allanol eu priodoli'n anghywir i newid.

Yn ogystal â'r dulliau ymchwil penodol, dylid ystyried y math mwyaf priodol o ddull gwerthuso. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar gam y rhaglen (canol tymor neu derfynol). Gweler Adran 3.3 ar gyfer gwybodaeth am ddulliau priodol.

Dylid dadansoddi a chyflwyno canlyniadau'r gwaith ymchwil yn eglur yn yr adroddiadau terfynol. Ni ddylai gwerthusiadau fod yn gyflwyniad a disgrifiad o gyflawniadau prosiect yn unig, ond yn hytrach dylent ganolbwyntio ar esbonio'r rhesymau am yr effeithiau ac archwilio'r rhesymau am unrhyw agweddau llai llwyddiannus ar y prosiect. Dylai adroddiadau gwerthuso hefyd wneud cyfres o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol. Dylid cyfathrebu argymhellion y gwerthusiad i'r rheini sy'n rhan o'r Grŵp Gweithredu Lleol ac yn darparu prosiectau (pan fo'n berthnasol). Dylai'r Grŵp Gweithredu Lleol ystyried pob argymhelliad ar ôl y gwerthusiad, a'i adolygu rywbryd yn y dyfodol i nodi camau y gallai fod angen eu cymryd o ganlyniad i'r argymhellion.

Mae'n bwysig i brosiectau ddsbarthu ffurflenni caniatâd cyfranogwyr ar ddechrau'r rhaglen i alluogi gwerthuswyr i gysylltu â nhw yn y dyfodol i gael eu cyfraniadau. Bydd y Gangen Strategaeth yn datblygu templed ffurflen ganiatâd i Grwpiau Gweithredu Lleol ei ddsbarthu.

Adran 3: Cynllunio, datblygu a chyflawni gwerthusiad

3.1. Cynllunio gwerthusiad

Yn ystod camau rhagarweiniol datblygiad y rhaglen, mae angen i Grwpiau Gweithredu Lleol ystyried eu gofynion gwerthuso. Mae cynllunio pa weithgareddau y bydd angen eu cyflawni yn sicrhau nad yw terfynau amser gwerthuso yn cael eu methu a bod amser priodol i werthusiadau gael eu cwblhau i ansawdd boddhaol. Argymhellir y dylai fod yn ofynnol i Grwpiau Gweithredu Lleol drefnu i gynnal gwerthusiad parhaus neu ganol tymor a gwerthusiad terfynol o leiaf.

Mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â pharatoi gwerthusiad yn cynnwys:

- Adolygu'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin;
- Datblygu cwestiynau gwerthuso sy'n benodol i'r rhaglen, yn gysylltiedig â nodau ac amcanion y Strategaethau Datblygu Lleol/prosiectau, diffiniad o feini prawf dyfarnu a chysylltiadau i ddangosyddion;
- Diffinio amcanion y polisi, cynulleidfa'r gwerthusiad a'r canlyniadau a fwriedir;
- Adolygu'r dulliau posibl o asesu canlyniadau ac effeithiau (ar gyfer gwerthusiadau terfynol) a dewis dulliau gwerthuso arfaethedig;
- Cytuno ar ofynion data a'r data sydd ar gael gyda darparwyr data. Dylid casglu data ar ffurf electronig, a'i storio a'i rannu'n ddiogel;
- Paratoi hysbysiadau a chytundebau preifatrwydd sy'n caniatáu i'r data gael eu rhannu fel sy'n ofynnol ar gyfer y gwerthusiad;
- Nodi'r adnoddau sydd eu hangen a threfniadau llywodraethu'r prosiect;
- Paratoi manyleb a chynllunio gweithdrefnau tendro (os mai gwerthuswyr allanol sy'n cynnal y gwerthusiad). Mae templed o fanyleb ar gael yn Adran 3.3; a
- Chreu cynllun cyfathrebu i rannu canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad.

Mae'r isadrannau isod yn cynnig manylion ychwanegol ar faterion yn ymwneud â chynllunio gwerthusiad ac yn rhoi sylw i eitemau y nodir yn y Strategaethau Datblygu Lleol sydd angen canllawiau.

3.1.1. Gwerthuso Rhanbarthol

Anogir cydweithio rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol yn fawr ac mae rhannu canlyniadau a chanfyddiadau gwerthuso yn arfer da.

Mae'r Strategaethau Datblygu Lleol ar gyfer rhai Grwpiau Gweithredu Lleol yn amlinellu cynigion ar gyfer cynnal gwerthusiadau rhanbarthol ar y cyd. Ni argymhellir bod gwerthusiadau rhanbarthol yn cael eu cynnal yn hytrach na gwerthusiadau ar lefel Grŵp Gweithredu Lleol. Gall casglu canlyniadau ar y raddfa hon beri i'r canlyniadau fod yn llai dibynadwy. O ystyried natur leol LEADER, mae'n bwysig bod gwerthusiadau yn canolbwyntio ar ganfyddiadau lleol a chanlyniadau sy'n benodol i'r Grŵp Gweithredu Lleol.

3.1.2. Gwerthuswyr parhaus

Efallai yr hoffai Grwpiau Gweithredu Lleol ystyried comisiynu rhaglen werthuso parhaus gyda contractwr allanol. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall gwerthuswyr parhaus sy'n gweithredu fel 'cyfaiil critigol'⁴ wrth weithredu'r rhaglen fod yn fuddiol iawn. Maent yn gallu darparu cymorth a chynghor parhaus mewn modd rhagweithiol, yn hytrach nag ystyried cyflawniadau'r rhaglen ar bwynt penodol mewn amser.

Gall gwerthuswyr parhaus hefyd argymhell, ar ddechrau'r rhaglen, pa ddata sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad terfynol. Mae hyn yn golygu y gall y Grŵp Gweithredu Lleol fod yn hyderus y bydd digon o ddata ar gael ar ddiwedd y rhaglen i gynnal y gwerthusiad terfynol. Bydd angen i ddata ychwanegol a gesglir fod yn uniongyrchol berthnasol i'r gweithgareddau a gyflawnir gan y Grŵp Gweithredu Lleol. Hefyd, bydd gan y Grŵp Gweithredu Lleol fwy o amser ar gael i drafod ei ofynion. Efallai y bydd Grwpiau Gweithredu Lleol yn gweld gwerth mewn penodi'r un gwerthuswr i gynnal y gwerthusiadau canol tymor a therfynol.

⁴ <http://llyw.cymru/funding/eu-funds/previous/project-evaluations/supplychain-efficiency/?lang=cy>

Y perygl cynhenid o benodi gwerthuswr parhaus yw efallai nad dyma'r dull mwyaf cost effeithiol, oherwydd gall tendro ar gyfer gwerthusiadau unigol olygu bod Grwpiau Gweithredu Lleol yn derbyn mwy o ddewisiadau cost effeithiol ar gyfer y gwaith.

3.1.3. Adnoddau

Dylid darparu adnoddau priodol a digonol ar gyfer monitro a gwerthuso. Gall LEADER dalu costau cynnal gwerthusiad allanol, annibynnol o'r prosiectau a gweithrediad y Grŵp Gweithredu Lleol a'i Gorff Gweinyddol. Bydd hyd at 15% o'r cyllid a ddyrennir i Grwpiau Gweithredu Lleol yn cael ei neilltuo ar gyfer 'Animeiddio a gwerthuso', ac fe'u hariennir 100%, heb fod angen unrhyw gyllid cyfatebol.

Dylai cyllidebau ar gyfer gwerthusiadau a gomisiynir yn allanol fod yn gymesur â nodau ac amcanion y gweithrediad. Fodd bynnag, mae gwerthusiadau nad oes ganddynt ddigon o adnoddau yn debygol o arwain at dystiolaeth o ansawdd gwael neu gasgliadau anghywir hyd yn oed, ac efallai na fyddant yn darparu'r sail dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer cynllunio prosiect yn y dyfodol.

3.1.4. Grŵp Llywio'r Gwerthusiad

Cyn comisiynu gwerthusiad, dylai Grwpiau Gweithredu Lleol ffurfio grŵp llywio i oruchwylio'r prosiect. Dylai hwn gynnwys: rhanddeiliaid sydd â diddordeb yng nghanlyniadau terfynol y gwerthusiad, unigolion yn y sefydliad sydd â gwybodaeth am y prosiectau (gan gynnwys data monitro) a, chynrychiolwyr o blith darparwyr prosiect. Cysylltwch â'r Gangen Strategaeth i ofyn i aelod o'r tîm fod yn aelod o'ch grŵp llywio gwerthusiad.

Bydd trefniadau llywodraethu yn nodi pwy sy'n gyfrifol am ba dasg, a allai gynnwys rheolwr y prosiect, y prif berchennog cyfrifol, cyfarwyddwr y prosiect neu'r grŵp llywio.

Tabl 2 – Cyfrifoldebau rheoli ansawdd gwerthuso

Rheolwr Prosiect Mewnol	Prif Berchennog Cyfrifol/Cyfarwyddwr y Prosiect	Grŵp Llywio
Drafftio manyleb	Sicrhau adnoddau priodol	Sicrhau ansawdd a pherthnasedd
Cael data angenrheidiol a chliriad diogelwch	Sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chasglu a'i bod ar gael i werthuswyr / WEFO	Hwyluso gwaith gwerthuswyr allanol
Rheoli risgiau o ddydd i ddydd		Mynediad at wybodaeth a chysylltiadau
Sicrhau bod y prosiect ar y trywydd iawn, yn bodloni amcanion, ar amser ac yn cyd-fynd â'r gyllideb		Sicrhau ansawdd: cynllun, cwestiynau, dulliau, dulliau ymchwil
Contractwyr: cyngor ac ymateb yn brydlon i faterion sy'n codi		Cynorthwyo i ddadansoddi a dehongli
Sicrhau ansawdd		
Rhannu'r canfyddiadau gyda'r gynulleidfa berthnasol		

Ffynhonnell: Llyfr Magenta (Tabl 5c)

Dylai'r trefniadau llywodraethu hefyd nodi'n eglur pwy sy'n gyfrifol, fel rheolwr data, o dan y Ddeddf Diogelu Data (1998)⁵.

3.2. Comisiynu a rheoli

Yn bennaf, bydd Grwpiau Gweithredu Lleol yn comisiynu cwmni gwerthuso arbenigol allanol i gynnal eu gwerthusiadau. Dylai Grwpiau Gweithredu Lleol gydymffurfio â phrotocol lleol neu brotocol y cwmni ond fe'u cynghorir i gynnig gwerthusiadau ar gyfer tendr agored ar wefan GwerthwchiGymru⁶.

Mae tasgau i'w hystyried wrth gynllunio gwerthusiad yn cynnwys:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i nodi gofynion;
- Dyrannu adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith. Bydd hyd at 15% o gyllid a ddyrennir i Grwpiau Gweithredu Lleol yn cael ei neilltuo ar gyfer 'Animeiddio a gwerthuso', ac fe'u hariennir 100%, heb fod angen unrhyw gyllid cyfatebol;
- Penderfynu pwy fydd yn cynhyrchu'r gwerthusiad. Argymhellir bod Grwpiau Gweithredu Lleol yn cyflogi contractwr allanol i gwblhau'r gwaith; a
- Chynhyrchu dogfennau cysylltiedig gan gynnwys; cynllun gwerthuso a manyleb tendr. Unwaith y dyfernir y gwerthusiad, y fanyleb fydd y contract ar gyfer y gwaith.

Dylai'r gwerthuswyr llwyddiannus fod yn annibynnol ar y prosiect ac ni ddylent gynnwys unrhyw un o randdeiliaid y prosiect. Nod cynnal yr arfer da hwn yw cael gwared ar duedd yn y gwerthusiad a all godi weithiau o ganlyniad i berthynas gyfarwydd rhwng y Grŵp Gweithredu Lleol/y gwerthuswr. Mae aelodau o dîm y Gangen Strategaeth ar gael i wneud sylwadau ar dendrau gwerthuso a'u sgorio.

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/29/contents>

⁶ Os hoffech gyngor ar gaffael gwasanaethau yng Nghymru, cysylltwch â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol; <http://nps.gov.wales/?skip=1&lang=cy>

3.3. Manyleb

Mae'r fanyleb yn gam hollbwysig yn y broses werthuso. Bydd yn cael ei defnyddio fel y ddogfen gyfeirio dros gyfnod y prosiect i fesur cynnydd a sicrhau bod y gwerthuswr llwyddiannus yn cyflawni'r gwaith sy'n ofynnol. Mae'n bwysig bod y nodau, yr amcanion a'r fethodoleg angenrheidiol yn cael eu hamlinellu'n eglur ac yn gynhwysfawr. Os bydd cwmpas gwerthusiad wedi ei ddiffinio'n wael o'r cychwyn, mae'n debygol y bydd y canlyniad terfynol o ansawdd gwael hefyd.

Dylid dilyn trefniadau llywodraethu mewnol wrth lunio manylebau ar gyfer contractau,. Gellir defnyddio tabl 3 isod fel canllaw ar yr adrannau sy'n ddefnyddiol eu hystyried gan gynnwys mewn manylebau drafft.

Tabl 3 – Tabled manyleb

Adran y fanyleb	Nodyn cyfarwyddyd
Cefndir	<p>Nodi'r cefndir ar gyfer y gwerthusiad, o ran y maes polisi (e.e. cefndir LEADER, y Strategaeth Datblygu Lleol a'i gweithrediad gan y Grŵp Gweithredu Lleol, cefndir yr WGRC-RDP 2014-2020) a'r cyd-destun ehangach y bydd y gwerthusiad yn gweithredu ynddo (e.e. pam mae'r gwerthusiad yn cael ei gomisiynu ar hyn o bryd, sut fydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio).</p> <p>Dylai'r adran hon nodi pam rydych yn comisiynu'r prosiect ymchwil.</p> <p>Esbonio pwysigrwydd y Strategaeth Datblygu Lleol.</p>
Nodau ac Amcanion	<p>Dylai'r nodau cyffredinol a roddir yn yr adran hon nodi'n gyffredinol yr hyn yr ydych yn dymuno ei gyflawni o ganlyniad i'r prosiect.</p>

	<p>Yn dibynnu ar natur y prosiect, efallai y bydd yr amcanion yn nodi'r cwestiynau ymchwil penodol y mae angen mynd i'r afael â nhw / y materion y mae angen tystiolaeth ar eu cyfer neu ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb, nodi'r camau i'w cymryd i gyflawni'r rhain.</p> <p>Mae'n bwysig bod yr adran hon yn cynnwys y meysydd allweddol yr hoffech i'r gwerthuswyr eu harchwilio gan ei fod yn darparu'r sail gytundebol ar gyfer gwneud y gwaith.</p>
<p>Methodoleg</p>	<p>Nodi'n eglur y dulliau yr ydych yn dymuno i'r contractwr eu defnyddio. Dylid esbonio unrhyw heriau yr ydych yn eu rhagweld (e.e. amserlenni ar gyfer cwblhau, dulliau) yma.</p> <p>Dylai darpar ymgeiswyr fod â dealltwriaeth eglur o'r hyn y mae'r comisiynydd yn ceisio ei gyflawni, ond mae croeso iddynt awgrymu'r dull gorau o'i gyflawni.</p> <p>Os ydych yn dymuno defnyddio dull neu ddulliau penodol, gofalwch eich bod yn eu cynnwys yma.</p>
<p>Terfynau amser tendro a meini prawf dyfarnu contract</p>	<p>Dylai'r adran amserlen nodi'r cerrig milltir ar gyfer tendro am y prosiect gan gynnwys hysbysebu'r fanyleb, hyd at ddyfarnu'r prosiect.</p> <p>Dylai'r adran hon ni'n eglur y meini prawf dyfarnu y bydd y cynigion yn cael eu sgorio yn eu herbyn, gan gynnwys y pwysoliad ar gyfer pob adran. Dylid cynnwys cost y contract yn rhan o gyfanswm sgôr y dyfarnu. Gallai meini prawf sgorio enghreifftiol gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Deall y cyd-destun ymchwil ac ymateb i'r briff

	<p>(cyfyngiad geiriau o 1,500 - 20%)</p> <ol style="list-style-type: none"> 2. Dull methodolegol; gan gynnwys rhesymeg, addasrwydd y dulliau arfaethedig, amserlenni ar gyfer cyflawni a risgiau a ragwelir a chatau lliniaru arfaethedig (cyfyngiad geiriau o 3,000 – 40%) 3. Manylion am dîm y prosiect; profiad blaenorol perthnasol, swyddogaethau a chyfrifoldebau yn rhan o'r contract hwn (cyfyngiad geiriau o 1,500 – 20%) 4. Cost (20%) <p>Fe'ch cynghorir i bennu cyfyngiadau geiriau ar gyfer pob adran.</p>
<p>Amserlenni a hyd y contract</p>	<p>Amlinellu dyddiad dechrau a gorffen y prosiect yn ogystal â thabl yn amlinellu agweddau allweddol i'w cyflawni a therfynau amser.</p> <p>Gallai'r camau cyflawni allweddol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad cychwynnol • Gwaith maes • Adroddiad terfynol drafft • Cyflwyniad i'r cleient • Adroddiad terfynol <p>Fodd bynnag, dylai'r rhain fod yn briodol ar gyfer pob Grŵp Gweithredu Lleol.</p> <p>Dylai amserlenni gynnwys yr amser y cymerir o ddrafftio'r adroddiadau tan eu cymeradwyo, fel y gall y rhai sy'n tendro neilltuo amser ar gyfer hyn wrth iddynt gynllunio.</p>
<p>Atodlen o'r gyllideb a phrisiau</p>	<p>Dylai'r adran hon nodi'r gyllideb ar gyfer y gwaith. Argymhellir y dylid cynnig amrediad costau, sy'n rhoi syniad bras o gostau'r gwerthusiad er mwyn annog cystadleurwydd gan roi syniad i'r rhai sy'n tendro o gost</p>

	<p>ddisgwyliedig y contract.</p> <p>Dylid cynnwys atodlen o'r prisiau yn amlinellu'r cerrig milltir pan fydd anfonebau'n cael eu talu. Gallai'r rhain gysylltu â'r camau cyflawni allweddol a nodir uchod.</p>
Gofynion y Gymraeg a chyfieithu	<p>Dylai'r Contractwr nodi'r angen i sicrhau y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal. Mae hyn yn cynnwys y gallu i wneud y gwaith maes yn ddwyieithog, fel cyfweiliadau ac arolygon cymunedol.</p>
Monitro'r contract	<p>Pwyntiau cyswllt i'r cleient a'r contractwr a threfniadau diffyg cydymffurfio.</p>
Diogelwch data	<p>Mae'n rhaid i gontractau gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.</p> <p>Mae'n rhaid i drefniadau priodol fod ar waith i sicrhau y trosglwyddir data'n ddiogel rhwng y contractwr gwerthuso a'r cleient/buddiolwr.</p>

Bydd gwahaniaethau rhwng y manylebau ar gyfer y gwerthusiad canol tymor a'r gwerthusiad terfynol. Yn benodol, bydd angen i'r adrannau nodau ac amcanion a dulliau adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran dull er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth yn yr ymchwil o ystyried y cyfnod amser ar gyfer cynnal y gwerthusiad. Mae gwahaniaethau cyffredinol i'w hystyried yn cynnwys:

- Bydd **Gwerthusiadau Canol Tymor** yn rhoi pwyslais ar fynd i'r afael â gweinyddu neu'r *brose* o ddarparu cyllid Rhaglen Datblygu Gwledig yn eich ardal gydag amcanion sydd â'r nod o ymchwilio i effeithlonrwydd systemau monitro sydd ar waith, cynnydd o ran cyflawni, dadansoddi data monitro, cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol, a chynnydd yn erbyn Cwestiynau

Gwerthuso Cyffredin. Yn ystod y cam hwn, efallai yr hoffai Grwpiau Gweithredu Lleol ymchwilio i effeithiolrwydd cyfathrebu, safbwyntiau rhanddeiliaid, pa un a yw cydbwysedd y gweithgareddau yn erbyn y Strategaeth Datblygu Lleol yn briodol, a pha un a oes newidiadau i'r amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ers drafftio'r Strategaeth Datblygu Lleol. Hefyd, dylai'r gwerthusiad canol tymor wneud argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod y Rhaglen.

- Bydd **Gwerthusiadau Terfynol** yn archwilio effaith y rhaglen ar ôl cyflawni'r ymyriadau. Fodd bynnag, bydd angen iddo hefyd ddarparu gwybodaeth i'r Grŵp Gweithredu Lleol am y gwersi y gallai fod angen eu dysgu yn y dyfodol i weithredu gweithgarwch tebyg yn fwy effeithiol. Hefyd, bydd angen gwneud asesiad terfynol ynghylch effeithiolrwydd gweithgareddau'r rhaglen o ran bodloni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth Datblygu Lleol. Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd cymysgedd o'r dulliau hyn yn cael ei defnyddio.

Anfonwch unrhyw fanylebau yr hoffech dderbyn sylwadau arnynt i RDPM&E@wales.gsi.gov.uk. Mae Canllawiau Arddull a thempled adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) ar gael hefyd.

3.4. Templed adroddiad

Mewn ymdrech i safoni a chreu nodweddion cyffredin o fewn gwerthusiadau Grwpiau Gweithredu Lleol, mae'r templed enghreifftiol isod yn rhoi syniad o'r adrannau y dylid eu cynnwys. Bydd y templed hwn yn amrywio yn dibynnu ar faint y prosiectau sy'n cael eu gwerthuso a maint y gwerthusiad. Gellir ymgynghori â'r Gangen Strategaeth yn ystod y broses i gael cyngor a sylwadau ar dendrau gwerthuso a strwythur arfaethedig. Ceir enghraifft amlinellol o strwythur adroddiad gwerthuso isod:

Crynodeb Gweithredol

- Prif ganfyddiadau'r gwerthusiad; a
- Chasgliadau ac argymhellion.

Cyflwyniad

- Diben yr adroddiad; a
- Strwythur yr adroddiad.

Cyd-destun

- Gwybodaeth gyd-destunol gryno am y rhaglen;
- Trafodaeth o werthusiadau blaenorol yn ymwneud â'r rhaglen;
- Disgrifiad o'r prosiect/rhaglen sy'n cael ei werthuso; a
- Gweithrediad y rhaglen; y gweithredwyr dan sylw, cyd-destun sefydliadol.

Dull methodolegol

- Esboniad o gynllun y gwerthusiad a'r dulliau a ddefnyddiwyd;
- Ffynonellau data, a gwybodaeth am y ffordd y penwyd dangosyddion i allu asesu ansawdd y data; a
- Phroblemau neu gyfyngiadau'r dull methodolegol.

Gwybodaeth ariannol a gwybodaeth dangosyddion

- Defnydd a'r gyllideb a wariwyd mewn gwirionedd, gyda thablau manwl ar ddadansoddiad faint o arian a dderbyniwyd gan brosiectau penodol; a
- Thablau o'r holl ddata dangosyddion monitro a gasglwyd yn ystod y prosiect. Dylai'r data hyn ffurfio'r sail ar gyfer gwerthuso pellach i esbonio'r canlyniadau.

Canlyniadau ymchwil sylfaenol

- Canlyniadau a dadansoddiad o'r gwaith ymchwil a wnaed;

- Dylid rhoi pwyslais ar y dadansoddiad o'r data yn hytrach na chyflwyno'r canlyniadau; a
- Thrafodaeth o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredinol perthnasol ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig 2014-2020 i ganiatáu i ganlyniadau ledled Cymru gael eu croesholi.

Casgliadau ac Argymhellion

- Cyflwyno casgliadau cyffredinol y rhaglen sy'n cymryd amcanion penodol i'r rhaglen ac amcanion y strategaeth genedlaethol i ystyriaeth; ac
- Argymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, gan gynnwys cynigion ar gyfer addasu rhaglenni, os yw'n berthnasol.

Mae templed llawn a chanllawiau arddull ar gael gan y Gangen Strategaeth. Hefyd, fe'ch cynghorir i ddarparu copïau o'r adroddiadau drafft i'r Gangen Strategaeth wneud sylwadau arnynt cyn i'r adroddiadau gwerthuso gael eu cwblhau.

3.5. Defnydd effeithiol o'r canlyniadau

Ni ddylid ystyried cynnal gwerthusiad fel ymarfer 'ticio blychau'. Maent yn ddogfennau gweithredol a ddylai ddylanwadu ar benderfyniadau gweithredu prosiectau. Yn ogystal â defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol mewn adroddiadau, argymhellir yn gryf fod Grwpiau Gweithredu Lleol yn adolygu gwerthusiadau eraill a gynhaliwyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol i nodi arferion gorau mewn mannau eraill a gwersi a ddysgwyd wrth gyflawni gweithgareddau o dan y Rhaglen flaenorol.

Mae'r argymhellion gwerthuso yn elfen allweddol o'r adroddiad. Efallai yr hoffai Grwpiau Gweithredu Lleol gyhoeddi eu hymateb i argymhellion yr adroddiad, ochr yn ochr â chyhoeddiad yr adroddiad.

Wrth arfarnu ceisiadau ar gyfer prosiectau yn ystod cyfnod y rhaglen nesaf, argymhellir eich bod yn cyfeirio at werthusiadau blaenorol yn ardal eich Grŵp Gweithredu Lleol fel y gallwch fod yn ymwybodol o'r materion a allai fod wedi

effeithio ar ardal debyg. Dylid darparu'r canfyddiadau hyn i'r rheolwyr prosiect perthnasol wedyn. Mae gan werthuso ran i'w chwarae er mwyn nodi arferion gorau fel y gellir adeiladu arnynt a'u hailadrodd.

Y Grwpiau Gweithredu Lleol yw'r brif gynulleidfa ar gyfer y gwerthusiadau a gynhrychir. Fodd bynnag, dylai bwrdd y prosiect, rhanddeiliaid sefydliadol, Grwpiau Gweithredu Lleol eraill sy'n cyflawni prosiectau tebyg, a Llywodraeth Cymru oll dderbyn copïau o'r holl werthusiadau a gynhelir. Dylid cyhoeddi'r adroddiadau gwerthuso terfynol ar-lein hefyd.

Cyn cwblhau adroddiad gwerthuso, mae'n aml yn ddefnyddiol trefnu i'r contractwr gyflwyno'r canfyddiadau allweddol i aelodau staff sy'n gweithio ar y Rhaglenni yn y Grŵp Gweithredu Lleol, aelodau o'r Grŵp Gweithredu Lleol, a rhanddeiliaid. Mae'n ffordd ddefnyddiol i'r rheini sy'n rhan o'r Grŵp Gweithredu Lleol drafod canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad gyda'r gwerthuswyr, i ofyn cwestiynau, ac i ystyried yr hyn y mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn ei olygu iddyn nhw a gweithgarwch yn y dyfodol.

Er mwyn cyfathrebu'r canfyddiadau'n effeithiol â phartïon ehangach â buddiant, efallai yr hoffai Grwpiau Gweithredu Lleol ddefnyddio dulliau fel: bwletinâu ar-lein; seminarau, cynadleddau, gweithdai lleol a chyhoeddi papurau. Argymhellir hefyd fod Grwpiau Gweithredu Lleol yn ymwybodol o ddigwyddiadau a gynhelir gan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru a Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol y DU. Bydd y Gangen Strategaeth hefyd yn cynnal gweithdai ar fonitro a gwerthuso ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol. Gellir cysylltu ag Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru trwy anfon e-bost i - ruralnetwork@wales.gsi.gov.uk.

Er mwyn sicrhau bod cyfleoedd dysgu a gyflwynir gan werthusiadau yn cael eu rhoi ar waith, gallai fod yn briodol cynnal adolygiad rhyw dro ar ôl cwblhau'r gwerthusiad i ystyried cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a wnaed mewn gwerthusiad.

Atodiad 1 – Rhagor o Ganllawiau

Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig 2014-2020:
https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/uploaded-files/wp_evaluation_questions_2015.pdf

Papur Gwaith ar Nodi effeithiau LEADER a mesurau i wella Ansawdd Bywyd mewn ardaloedd gwledig:
http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=1&ved=0ahUKEwjXt_a0odLMAhWjlcAKHc1aBokQFggjMAA&url=http%3A%2F%2Fec.europa.eu%2Fagriculture%2Furdev%2Feval%2Fwp-leader_en.pdf&usg=AFQjCNG7Q867iDJO1g0esJEQ5GAcGb6cUg

Gwerthusiad o echelau 3 a 4 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013:
<http://gov.wales/funding/eu-funds/previous/project-evaluations/rural-development/?skip=1&lang=cy>

Desg Gymorth Gwerthuso Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig:
<https://enrd.ec.europa.eu/en/evaluation>

Canolfan Gwerthuso Effaith y Comisiwn Ewropeaidd:
http://ec.europa.eu/regional_policy/index.cfm/en/policy/evaluations/guidance/impact_faq_theor

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol – *Evaluation in Government*:
<https://www.nao.org.uk/report/evaluation-government/>

Llyfr Magenta Trysorlys ei Mawrhydi:
<https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book>

Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi:
<https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-government>

ESRC Framework for Research Ethics 2010 (diwygiwyd ym mis Medi 2012) (PDF, 480Kb): http://www.esrc.ac.uk/_images/framework-for-research-ethics-09-12_tcm8-4586.pdf

Canllawiau Moesegol y Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol:
<http://the-sra.org.uk/research-ethics/ethics-guidelines/>

GSR Ethical Assurance for Social Research in Government:
<http://www.civilservice.gov.uk/networks/gsr/publications>

Atodiad 2 – Geirfa

Arolygon Cymunedol	Yn cynnwys cynnal arolwg gyda grwpiau cymunedol ehangach, yn hytrach na buddiolwyr uniongyrchol y Cynllun Datblygu Gwledig. Gall hyn gynnwys buddiolwyr prosiectau cymunedol eu natur, yn ogystal â grwpiau cymunedol ehangach. Mae hyn yn helpu i asesu manteision ehangach y gweithrediadau.
Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin	Mae pob maes ffocws (FA) yn cysylltu â chwestiwn gwerthuso cyffredin. Mae eu defnyddio'n gyson yn y gwerthusiadau o'r Meysydd Ffocws cyfatebol ledled Ewrop yn helpu i sicrhau bod modd cymharu'r canlyniadau. Mae'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin yn gysylltiedig ag amcanion polisi datblygu gwledig.
Cyfweliadau	Mae cyfweliadau lled-strwythuredig yn darparu data ansoddol ac yn rhoi cipolwg da ar y rhesymau y tu ôl i ganlyniadau. Gan amlaf cynhelir cyfweliadau dros y ffôn neu wyneb-yn-wyneb.
Dadansoddiad o'r Sefyllfa	Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i'r polisi cefndirol perthnasol a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach y mae prosiectau'n gweithredu o'i fewn. Mae'r broses hon yn gwella'r meincnod y gall gwerthuswyr ei ddefnyddio i asesu'r gwelliant i ardal.

Fframwaith Ymchwil	Mae fframwaith ymchwil yn darparu cyd-destun ac yn creu fframwaith cyfeirio damcaniaethol ar gyfer tasgau ymchwil. Mae'n gweithredu fel canllaw ar gyfer y dyluniad ymchwil systematig i nodi cysylltiadau a chyd-ddibyniaethau ymhlith newidynnau.
Grwpiau Ffocws	Yn debyg i gyfweiliadau, mae grwpiau ffocws yn cynnwys hwylusydd sy'n ysgogi trafodaeth mewn cyfarfod grŵp o tua chwech i wyth o bobl. Mae'r dull hwn yn ddefnyddiol er mwyn cael amrywiaeth o sylwadau a safbwyntiau mewn cyfnod byrrach na chyfweiliadau.
LEADER	Acronym Ffrangeg, sy'n sefyll am 'Liaison Entre Actions de Développement de l'Économie Rurale', yw LEADER. Ystyr hyn yw 'Cysylltiadau rhwng yr economi wledig a chamau gweithredu datblygu'.
Llinell Sylfaen	At ddibenion monitro a gwerthuso, mae'r llinell sylfaen yn darparu mesur o ddangosydd (set o ddangosyddion) penodol cyn i ymyriad ddigwydd. Gellir defnyddio hyn wedyn i asesu cyflawni'r canlyniadau a'u heffaith drwy gymharu gwerth yr un set o ddangosyddion â'r llinell sylfaen rywbryd yn ystod yr ymyriad neu ar ôl hynny. Er hynny, efallai na fydd unrhyw newidiadau yn y llinell sylfaen wedi'u hachosi gan yr ymyriad, gan y gall ffactorau allanol fod wedi cael dylanwad. Felly, mae angen i'r llinell sylfaen gael ei hategu gan ymchwil ychwanegol i ganfod i ba raddau y gellir priodoli unrhyw newidiadau i'r ymyriad e.e. cyfweiliadau buddiolwyr.

<p>Manyleb</p>	<p>Dogfen sy'n disgrifio'n glir, yn gywir ac yn gyflawn gofynion hanfodol yr ymchwil sy'n cael ei phrynu.</p>
<p>Rheoliad Cyngor</p>	<p>Gweithred ddeddfwriaethol rwymol gan yr Undeb Ewropeaidd yw rheoliad. Mae polisi datblygu gwledig yr UE yn cael ei lunio ar ffurf Rheoliadau Cyngor sy'n pennu sut y caiff y polisi ei weithredu.</p>
<p>Samplu Pelen Eira</p>	<p>Y broses o nodi cyfweleion ychwanegol i gyfweld â hwy, neu eu defnyddio fel astudiaethau achos yn seiliedig ar argymhellion cysylltiadau presennol</p>
<p>Strategaethau Datblygu Lleol</p>	<p>Cafodd Strategaethau Datblygu Lleol eu cwblhau gan bob Grŵp Gweithredu Lleol ar ddechrau'r cyfnod rhaglennu. Maent yn nodi cyfres gydlynol o weithrediadau i fodloni amcanion ac anghenion lleol, sy'n cyfrannu at fodloni strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol ac sy'n cael eu rhoi ar waith mewn partneriaeth ar y lefel briodol.</p>
<p>Theori Newid</p>	<p>Dull gweithredu a ddefnyddir i sefydlu trefn gwahanol ganlyniadau y mae angen eu cyflawni er mwyn sicrhau nodau hirdymor ymyriad.</p>

Anecs 1 – Rhestr o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin

Darperir rhestr lawn o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin ar gyfer datblygu gwledig isod. Os hoffech wybodaeth fanwl am y meini prawf dyfarnu, dangosyddion cyffredin cysylltiedig, a gwybodaeth ychwanegol ar gyfer pob un o'r Cwestiynau Gwerthuso Cyffredin, ewch i: https://enrd.ec.europa.eu/sites/enrd/files/uploaded-files/wp_evaluation_questions_2015.pdf

Cwestiynau gwerthuso cysylltiedig â Maes Ffocws

Maes Ffocws		Cwestiwn Gwerthuso
P1A	Meithrin arloesedd, cydweithio, a datblygu'r sail wybodaeth mewn ardaloedd gwledig	1. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi arloesedd, cydweithio a datblygiad y sail wybodaeth mewn ardaloedd gwledig?
P1B	Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd a choedwigaeth ac ymchwil ac arloesedd, gan gynnwys at ddibenion gwell rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol	2. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi cryfhau cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd a choedwigaeth ac ymchwil ac arloesedd, gan gynnwys at ddibenion gwell rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol?
P1C	Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth	3. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth?
P2A	Gwella perfformiad economaidd pob fferm a hwyluso ailstrwythuro a moderneiddio ffermydd, yn bennaf â'r bwriad o gynyddu cyfranogiad a chyfeiriadedd yn y farchnad yn ogystal ag arallgyfeirio amaethyddol	4. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at wella perfformiad economaidd, ailstrwythuro a moderneiddio ffermydd a gefnogir, yn benodol trwy gynyddu eu cyfranogiad yn y farchnad ac arallgyfeirio amaethyddol?

P2B	Hwyluso mynediad ffermwyr â sgiliau digonol i'r sector amaethyddiaeth, ac adnewyddu cenedliadol yn benodol	5. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi mynediad ffermwyr â sgiliau digonol i'r sector amaethyddiaeth, ac adnewyddu cenedliadol yn benodol?
P3A	Gwella cystadleurwydd cynhyrchwyr cynradd drwy eu hintegreiddio'n well i'r gadwyn bwyd-amaeth trwy gynlluniau ansawdd, ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchedau bwyd prin, grwpiau a sefydliadau cynhyrchwyr a sefydliadau rhyng-gangen	6. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at wella cystadleurwydd cynhyrchwyr cynradd drwy eu hintegreiddio'n well i'r gadwyn bwyd-amaeth trwy gynlluniau ansawdd, ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchedau bwyd prin, grwpiau a sefydliadau cynhyrchwyr a sefydliadau rhyng-gangen?
P3B	Cefnogi gwaith rheoli ac atal risg ffermydd	7. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi gwaith rheoli ac atal risg ffermydd?
P4A	Adfer, cadw a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys ardaloedd Natura 2000, ac ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol neu gyfyngiadau penodol eraill, a ffermio sydd o werth mawr i natur, yn ogystal â chyflwr tirweddau Ewropeaidd	8. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi adfer, cadw a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys ardaloedd Natura 2000, ac ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol neu gyfyngiadau penodol eraill, a ffermio sydd o werth mawr i natur, yn ogystal â chyflwr tirweddau Ewropeaidd?
P4B	Gwella gwaith rheoli dŵr, gan gynnwys rheoli gwrteithiau a phlaladdwyr	9. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cynorthwyo i wella gwaith rheoli dŵr, gan gynnwys rheoli gwrteithiau a phlaladdwyr?
P4C	Atal erydiad pridd a gwella gwaith rheoli pridd	10. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi atal erydiad pridd a gwella rheoli pridd?

P5A	Cynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd ynni ym meysydd amaethyddiaeth a phrosesau bwyd	11. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at gynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd ynni ym meysydd amaethyddiaeth a phrosesau bwyd?
P5B	Cynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd ynni yn y sector amaeth ac wrth brosesu bwyd	12. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at gynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd ynni yn y sector amaeth ac wrth brosesu bwyd?
P5C	Hwyluso'r cyflenwad a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, sgil-gynhyrchion, gwastraff a gweddillion a deunydd crai arall nad yw'n fwyd, at ddibenion y bio-economi	13. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at y cyflenwad a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, sgil-gynhyrchion, gwastraff a gweddillion a deunydd crai arall nad yw'n fwyd, at ddibenion y bio-economi?
P5D	Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac allyriadau amonia o ganlyniad i amaethyddiaeth	14. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac allyriadau amonia o ganlyniad i amaethyddiaeth?
P5E	Meithrin cadwraeth carbon a'i ddal a'i storio mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth	15. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi cadwraeth carbon a'i ddal a'i storio mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth?
P6A	Hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach, yn ogystal â chreu swyddi	16. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach a chreu swyddi?
P6B	Meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig	17. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cefnogi datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig?

P6C	Gwella hygyrchedd, defnydd ac ansawdd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig	18. I ba raddau y mae ymyriadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi gwella hygyrchedd, defnydd ac ansawdd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ardaloedd gwledig?
-----	--	--

Cwestiynau gwerthuso cysylltiedig ag agweddau eraill ar y Rhaglen Datblygu Gwledig

Agwedd arall ar y Rhaglen Datblygu Gwledig	Cwestiwn Gwerthuso
Perfformiad Gweithredol	19. I ba raddau y mae'r synergeddau ymhlith blaenoriaethau a meysydd ffocws wedi gwella effeithiolrwydd y Rhaglen Datblygu Gwledig?
Cymorth Technegol	20. I ba raddau y mae cymorth technegol wedi cyfrannu at fodloni'r amcanion a nodir yn Erthygl 59(1) Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013 ac Erthygl 51(2) Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013?
Rhwydweithiau Gwledig Cymru	21. I ba raddau y mae'r rhwydwaith gwledig cenedlaethol wedi cyfrannu ar fodloni'r amcanion a nodir yn Erthygl 54(2) Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013?

Cwestiynau gwerthuso cysylltiedig ag amcanion ar lefel yr UE

Amcan UE	Cwestiwn Gwerthuso
Prif Dargedau'r UE ar gyfer 2020	<p>22. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at fodloni prif darged yr UE ar gyfer 2020 o godi cyfradd gyflogaeth y boblogaeth 20-64 oed i 75% o leiaf?</p> <p>23. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at fodloni prif darged yr UE ar gyfer 2020 o fuddsoddi 3% o Gynnyrch Domestig Gros yr UE mewn ymchwil, datblygu ac arloesedd?</p> <p>24. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu</p>

	<p>at liniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd ac at fodloni prif darged yr UE ar gyfer 2020 o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 20% o leiaf o'u cymharu â lefelau 1990, neu o 30% os yw'r amodau'n iawn, i gynyddu cyfran yr ynni adnewyddadwy mewn defnydd ynni terfynol i 20%, a chyflawni cynnydd o 20% i effeithlonrwydd ynni?</p> <p>25. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at fodloni prif darged yr UE ar gyfer 2020 o leihau nifer yr Ewropeaid sy'n byw o dan y ffin tlodi cenedlaethol?</p> <p>26. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at wella'r amgylchedd a fodloni targed strategaeth Fioamrywiaeth yr UE o atal y golled o fioamrywiaeth a diraddiad gwasanaethau ecosystem, a'u hadfer?</p>
<p>Amcanion PAC</p>	<p>27. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at amcan y PAC o feithrin cystadleurwydd amaethyddiaeth?</p> <p>28. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at amcan y PAC o sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a gweithredu ar yr hinsawdd?</p> <p>29. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at amcan y PAC o gyflawni datblygiad tiriogaethol cytbwys economïau a chymunedau gwledig gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth?</p> <p>30. I ba raddau y mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at feithrin arloesedd?</p>

Anecs 2 - Cwestiynau a awgrymir ar gyfer gwerthusiadau canol tymor a therfynol

Gwerthusiad Canol Tymor

Nod

Archwilio effeithlonrwydd sut y gweithredir LEADER Grŵp Gweithredu Lleol [mewnosoder enw **GGLL**] yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020; sy'n cwmpasu [mewnosoder **meysydd allweddol sydd o ddiddordeb**]. Bydd y gwerthusiad yn llywio unrhyw newidiadau posibl ar gyfer ail hanner cyfnod y rhaglen.

Amcanion

Mae'r amcanion penodol o dan bob elfen fel a ganlyn:

Strategaeth Datblygu Lleol⁷

Asesu:

- A yw'r Strategaeth Datblygu Lleol yn dal yn berthnasol i amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yr ardal, ac i ba raddau;
- Effeithlonrwydd y Strategaeth Datblygu Lleol fel ysgogydd dull strategol o ddarparu LEADER⁸;
- Effeithlonrwydd y Strategaeth Datblygu Lleol wrth ymgysylltu â sefydliadau sy'n noddi prosiectau;
- I ba raddau y mae'r Strategaeth Datblygu Lleol wedi hyrwyddo cydweithio wrth ddatblygu prosiectau;
- I ba raddau y mae prosiectau newydd wedi'u dylanwadu gan y Strategaethau Datblygu Lleol;

⁷ Gan rfod y rhain yn gyfres eang o gwestiynau gwerthuso a awgrymir, anogir i Grwpiau Gweithredu Lleol ychwanegu cwestiynau ychwanegol sy'n trafod materion penodol a drafodir yn eu Strategaethau Datblygu Lleol neu i gasglu tystiolaeth ar faterion penodol y maent wedi'u hwynebu o bosibl wrth weithredu a chyflawni eu Strategaethau Datblygu Lleol.

⁸ Gyda'r amcan hwn, a'r holl amcanion eraill sy'n archwilio'r dull LEADER, dylai gwerthuswyr ystyried sut mae saith elfen LEADER wedi'u cyflawni.

- Effeithlonrwydd y Strategaeth Datblygu Lleol fel offeryn rheoli sy'n cyfrannu'n effeithiol at wireddu nodau ac amcanion y Grŵp Gweithredu Lleol;
- I ba raddau y mae'r Strategaeth Datblygu Lleol wedi galluogi targedu gofodol effeithiol o ran y Rhaglenni, gan gynnwys ardaloedd Ucheldir;
- A oes unrhyw beth yn y Strategaeth Datblygu Lleol a allai fod yn atal noddwyr prosiectau posibl;
- Ymchwilio i sut mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn rhyngweithio â strategaethau perthnasol eraill yn ardal y Grŵp Gweithredu Lleol;
- Asesu i ba raddau mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi gweithredu a darparu gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth at hunaniaeth lleol ac adnoddau naturiol a diwylliannol⁹;
- Asesu i ba raddau y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi gweithredu a darparu gweithgareddau sy'n hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr;
- Asesu i ba raddau y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi gweithredu a darparu gweithgareddau sy'n archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol;
- Asesu i ba raddau y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi gweithredu a darparu gweithgareddau sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol;
- Asesu i ba raddau y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi gweithredu a darparu gweithgareddau i ddefnyddio TG.

Gweithredu

Asesu:

- Ansawdd ac effeithlonrwydd y ffordd y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gweithredu a rheoli LEADER;
- I ba raddau y mae adnoddau lleol wedi'u defnyddio yn y cyfnod datblygu;
- Darparu asesiad o ba mor briodol yw'r model(au) darparu ar gyfer gweithio yng nghyd-destun Cymru/lleol.

⁹ Dylid ond cynnwys yr amcan hwn a'r pedar amcan oddi tano os yw'r Strategaeth Datblygu Lleol yn cyflawni yn erbyn y thema.

Addasrwydd Strategol:

- Nodi sut mae prosiectau wedi'u cyllido yn cyd-fynd â'r cyd-destun polisi ehangach, a nodi unrhyw ddatblygiadau polisi a allai effeithio ar y Strategaeth Datblygu Lleol am weddill cyfnod y Rhaglen;
- Asesu i ba raddau y mae gweithgareddau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cael eu hintegreiddio â: Rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru; cynlluniau a gweithgareddau eraill y Rhaglen Datblygu Gwledig; prosiectau a gweithgareddau Grwpiau Gweithredu Lleol eraill; a Rhaglenni Ewropeaidd a ffrydiau cyllid eraill;
- Asesu cynaliadwyedd gweithgarwch a gyllidir o dan y Strategaeth Datblygu Lleol, o ran effeithiau tebygol polisi ac ymarfer yn y dyfodol (prif ffrydio);
- Nodi unrhyw feysydd gweithgarwch cymwys y dylai'r Grŵp Gweithredu Lleol geisio rhoi blaenoriaeth iddynt am weddill cyfnod y Rhaglen bresennol.

Y Themâu Trawsbynciol

Asesu:

- I ba raddau y mae prosiectau wedi integreiddio themâu Trawsbynciol i ddarpariaeth eu gweithgareddau;
- I ba raddau y mae'r prosiectau wedi cymryd camau i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg;
- Pa rwystrau, os o gwbl, sy'n atal prosiectau rhag integreiddio'r Themâu Trawsbynciol i'w potensial llawn;
- Mae angen darparu asesiad sy'n nodi a oes angen gweithredu o unrhyw fath er mwyn gallu integreiddio'r Themâu Trawsbynciol yn fwy effeithiol a nodi pa gam/au y gellid eu cymryd i gefnogi'r broses integreiddio hon;
- Mae angen darparu asesiad sy'n nodi a yw'r gofyniad a'r ymrwymiad a wnaed i ddarparu gweithgarwch Themâu Trawsbynciol yn effeithio ar ddarpariaeth gyffredinol prosiectau;
- Asesu effeithlonrwydd ychwanegu dangosyddion Lefel Achos (prosiect) Themâu Trawsbynciol fel mecanwaith ar gyfer nodi'r broses o integreiddio Themâu.

Cyfathrebu

Asesu:

- Ymwybyddiaeth a chanfyddiad o LEADER ymysg rhanddeiliaid Grŵp Gweithredu Lleol a llunwyr barn;
- Safbwyntiau rhanddeiliaid ar ba mor briodol y mae negeseuon yn cael eu cyfathrebu am LEADER yn ardal y Grŵp Gweithredu Lleol;
- Darparu asesiad o noddwyr prosiectau a safbwyntiau darparwyr ar effeithlonrwydd cyfathrebu LEADER wrth ddarparu eu gweithgareddau;
- I ba raddau y mae cymunedau a phobl leol wedi ymgysylltu â'r Grŵp Gweithredu lleol;
- Effeithlonrwydd deunydd cyhoeddusrwydd prosiectau a'r Grŵp Gweithredu Lleol a chysondeb y neges drwy'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth.

Darpariaeth:

- Pennu cynnydd y portffolio o brosiectau tuag at gyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Datblygu Lleol;
- Archwilio'r cynnydd y mae prosiectau sy'n cael eu cyllido dan y Strategaeth Datblygu Lleol yn ei wneud tuag at ddangosyddion y prosiectau a'r Strategaeth Datblygu Lleol;
- Asesu i ba raddau y mae dull LEADER wedi'i ddarparu;
- Nodi meysydd arloesi newydd mewn prosiectau a gyllidir;
- Nodi enghreifftiau o arferion gorau mewn prosiectau a gyllidir.

Gwerthusiad Terfynol

Nod

Asesu canlyniadau a gwerth ychwanegol darpariaeth Grŵp Gweithredu Lleol] [mewnoder enw GGLL] o weithgareddau LEADER yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020; sy'n cwmpasu] [mewnoder meysydd allweddol sydd o ddiddordeb]. Bydd canfyddiadau a chasgliadau'r gwerthusiad yn rhoi cyfres o argymhellion seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella ansawdd a darpariaeth ymyriadau mewn cymunedau gwledig fel hyn yn y dyfodol.

Amcanion

Amcanion penodol o dan bob elfen fel a ganlyn:

Y canlyniadau a'r manteision a ddarparwyd:

- Asesu potensial cyllid LEADER i ddarparu manteision ehangach i'r economi wledig leol o ran: cynaliadwyedd cymdeithasol, gweithredu cydweithredol a darpariaeth nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus¹⁰;
- Archwilio i ba raddau y gellir priodoli unrhyw ganlyniadau'n glir i LEADER;
- Archwilio unrhyw effeithiau ychwanegol (cadarnhaol neu negyddol) a ddarperir y gellir eu priodoli i LEADER;
- I ba raddau y gellir priodoli newidiadau ehangach yn y Grŵp Gweithredu Lleol i'r gweithgareddau a ddarperir?
- Archwilio i ba raddau y cyflawnodd y Grŵp Gweithredu Lleol yn erbyn elfennau craidd methodoleg LEADER, gan gynnwys: partneriaeth, datblygiad tiriogaethol 'o'r gwaelod i fyny', arloesedd a chydweithredu;
- I ba raddau y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi gweithio ar draws ffiniau daearyddol a gweinyddol?

Perfformiad:

¹⁰ Gyda'r amcan hwn, a'r holl amcanion eraill sy'n archwilio'r dull LEADER, dylai gwerthuswyr ystyried sut mae saith elfen LEADER wedi'u cyflawni.

- Nodi pa weithgareddau o bob thema o'r Strategaeth Datblygu Lleol a roddwyd ar waith sy'n effeithiol ar lefel leol mewn perthynas â nodau ac amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol;
- Darparu asesiad yn erbyn dangosyddion o'u perfformiad;
- Asesu a oes gwerth ychwanegol wedi'i sicrhau ac i ba raddau;
- Darparu arfarniad o ba mor berthnasol yw'r cyflawniadau hyn wrth feithrin cymunedau gwledig cynaliadwy.

Perthnasedd

- I ba raddau mae amcanion, gweithgareddau a dyraniad adnoddau y Strategaeth Datblygu Lleol wedi bod yn mynd i'r afael ag anghenion pwysicaf ardal y Grŵp Gweithredu Lleol dros gyfnod gweithredu'r Rhaglen?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau a gynhelir wedi arwain at newidiadau sy'n mynd i'r afael ag anghenion ardal y Grŵp Gweithredu Lleol?
- I ba raddau mae gweithgareddau ac allbynnau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gyson â chyrhaeddiad amcanion cyffredinol y Grŵp Gweithredu Lleol?
- I ba raddau mae gweithgareddau ac allbynnau'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gyson â'r canlyniadau a'r effeithiau y bwriedir i'r Strategaeth Datblygu Lleol eu cyflawni?

Canlyniadau o ran cyflawniadau'r Grŵp Gweithredu Lleol gyda buddiolwyr uniongyrchol y Rhaglen

- I ba raddau mae gweithgareddau'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi mynd i'r afael â buddiolwyr uniongyrchol y rhaglen?
- I ba raddau y cyflawnwyd amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer y grŵp o fuddiolwyr uniongyrchol?

Gwersi a ddysgwyd:

- Nodi'r gwersi a ddysgwyd wrth weithredu a darparu'r Strategaeth Datblygu Lleol, gan gynnwys ei chynaliadwyedd;

- Beth oedd y prif ffactorau yng ngweithgareddau'r Grŵp Gweithredu Lleol a ddylanwadodd yn gadarnhaol ar gyflawni'r amcanion?
- Beth oedd y prif ffactorau yng ngweithgareddau'r Grŵp Gweithredu Lleol a ddylanwadodd yn negyddol ar gyflawni'r amcanion?
- I ba raddau mae gweithgareddau'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi mynd i'r afael â heriau newydd a gododd yn ystod cyfnod y rhaglen?
- Nodwch achosion o arferion gorau wrth weithredu a darparu LEADER;
- Nodwch enghreifftiau o arloesi wrth i'r Grŵp Gweithredu Lleol weithredu a darparu LEADER, i gynnwys: gweithio mewn ffyrdd newydd, datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, ac addasu dulliau profedig ar gyfer amgylchiadau newydd;
- Asesu i ba raddau mae gweithgareddau'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi helpu i ddatblygu ymddiriedaeth a chysylltiadau gwaith cadarnhaol ymysg cymunedau a busnesau lleol.

Cyfathrebu:

[Os nad yw'r Gwerthusiad Canol Tymor, na gweithgarwch gwerthuso parhaus sy'n edrych ar gyfathrebu wedi cael ei wneud, yna dylai'r gwerthusiad terfynol asesu gweithgaredd cyfathrebu]

- Archwilio effeithlonrwydd cynllun cyfathrebu'r Grŵp Gweithredu Lleol;
- Pennu pa mor effeithiol y rhoddodd y Grŵp Gweithredu Lleol gyhoeddusrwydd i ganlyniadau ac effaith eu gweithredoedd;
- I ba raddau y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi cyfathrebu enghreifftiau o arferion gorau;
- Ymwybyddiaeth a chanfyddiad o LEADER ymysg rhanddeiliaid allweddol Grŵp Gweithredu Lleol a llunwyr barn;
- Safbwyntiau rhanddeiliaid ar ba mor briodol oedd y negeseuon a gyfathrebwyd am LEADER yn ardal y Grŵp Gweithredu Lleol;
- Darparu asesiad o safbwyntiau darparwyr a noddwyr prosiect ar effeithlonrwydd cyfathrebu LEADER yn narpriaeth eu gweithgareddau;

- Effeithlonrwydd deunydd cyhoeddusrwydd y prosiect a'r Grŵp Gweithredu Lleol a chysondeb y neges drwy'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth.

[Os bydd y Grŵp Gweithredu Lleol wedi cynnal Gwerthusiad Canol Tymor, neu weithgaredd gwerthuso parhaus i archwilio gyfathrebu, yna ni fydd angen asesiad llawn o gyfathrebu fel rhan o'r gwerthusiad terfynol. Awgrymir bod y pwynt bwled isod ar weithgarwch cyfathrebu yn cael ei gynnwys]

- Asesu i ba raddau y mae argymhellion gweithgarwch y Gwerthusiad Canol Tymor/ Gwerthusiad Parhaus [**dileer fel y bo angen**] ar weithgarwch cyfathrebu wedi'u rhoi ar waith gan y Grŵp Gweithredu Lleol.

Themâu Trawsbynciol

Asesu:

- I ba raddau y mae prosiectau wedi integreiddio Themâu Trawsbynciol i ddarpariaeth eu gweithgareddau;
- Nodi achosion o arferion gorau wrth integreiddio Themâu Trawsbynciol;
- I ba raddau y mae prosiectau wedi cymryd camau sydd wedi hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg;
- A yw'r gofyniad a'r ymroddiad i ddarparu gweithgarwch Themâu Trawsbynciol wedi effeithio ar ddarpariaeth gyffredinol prosiectau;
- A oes angen cymryd unrhyw gamau i gefnogi proses fwy effeithiol o integreiddio Themâu Trawsbynciol a nodi pa gamau y gellid eu cymryd i gynorthwyo i'w hintegreiddio i unrhyw ymyriadau a ddarperir mewn cymunedau gwledig ar ôl y Pontio'r UE.

Anecs 3 – Amserlen Werthuso Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020



